EISTEDDFOD 2025

## 157. GWOBR GOFFA ALED LLOYD DAVIES (1)

## Detholiad o 'Tyrd i'r Mynydd'

Ym mynyddoedd mawr y Berwyn,
Fry ymhell uwch twrw'r byd,
Mae 'na gilfach rhwng y rhedyn
Lle mae'r borfa'n las o hyd,
Lle mae'r hedydd bychan croyw
Yn diferu'i gân o'r nen,
Lle mae cwymp y ffrwd fach loyw
Fel yr eira uwch fy mhen.

Ni fydd neb i'n gweld yn dringo
Ond y defaid gwlanog gwyn,
Ni fydd neb â'i glustiau'n gwrando
Ond y nant sy'n brysio i'r llyn.
Ni ddaw neb ond ni i'r gilfach
Lle mae'r borfa'n las o hyd
Ym mynyddoedd mawr y Berwyn
Fry ymhell uwch twrw'r byd.

Tyrd yn fore gyda mi i'r mynydd mawr
Gyda'n gwalltiau yn y gwynt, (saib)
Cawn gusanu'r awel, (saib)
Hela'r cwmwl arian ar ei hynt,
Fel y gwenyn fe gawn fêl o'r llwyni llus,
Cawn yr haul yn wisg i ni,
Tyrd yn fore, tyrd fy ffrind, (saib)
Tyrd i'n mynydd ni.

**ISLWYN FFOWC ELLIS**
**DETHOLIAD GAN OWAIN SIÔN WILLIAMS**